Tŷ Afon, Ffordd Bedwas
Bedwas, Caerffili,
CF83 8WT

Tŷ Afon, Bedwas Road
Bedwas, Caerphilly
CF83 8WT

www.hefcw.ac.uk

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

# Cylchlythyr | Circular

# Adolygiad CCAUC o gyllid addysgu: Canlyniadau ymgynghoriad cam dau

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 12 Hydref 2022 |
| **Cyfeirnod:** | W22/36HE |
| **At:** | Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru<br>Penaethiaid sefydliadau addysg bellach a gyllidir yn uniongyrchol yng Nghymru |
| **Ymateb erbyn:** | Dim ymateb yn ofynnol. |
| **Cyswllt:** | Enw: Nicola Hunt<br>Ffôn: 029 2085 9735<br>E-bost: nicola.hunt@hefcw.ac.uk |

Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu canlyniadau cylchlythyr ymgynghori W22/11HE a oleuodd gam dau ein hadolygiad o gyllid addysgu. Darparodd yr ymgynghoriad wybodaeth am newidiadau arfaethedig i'n methodoleg cyllid addysgu.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat hygyrch arall, anfonwch e-bost i info@hefcw.ac.uk.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg | We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi | Corresponding in Welsh will not lead to delays
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English

## Cyflwyniad

1. Mae’r cylchlythyr hwn yn darparu canlyniadau cylchlythyr ymgynghori W22/11HE a oleuodd gam dau ein hadolygiad o gyllid addysgu. Darparodd yr ymgynghoriad wybodaeth am newidiadau arfaethedig i’n methodoleg cyllid addysgu.

2. Ceir gwybodaeth am gam un yr adolygiad yng nghylchlythyr W21/26HE, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2021.

## Cefndir

3. Roedd cylchlythyr W22/11HE yn gofyn am farn pobl ynglŷn â nifer o newidiadau posibl i’n methodoleg cyllid addysgu. Roedd y newidiadau hyn yn canolbwyntio’n bennaf ar ddull cyllido seiliedig-ar-gredydau newydd, yn ogystal â newidiadau i ffrydiau cyllid unigol megis premiymau cymhelliant CCAUC, a chyflwyno grwpiau cost newydd i ddisodli’r categorïau pynciau academaidd blaenorol a ddefnyddir yn y dull seiliedig-ar-gredydau cyfredol.

4. Darperir canlyniadau'r ymgynghoriad, a'r camau cyfatebol a gynigir, isod.

5. Mae camau un a dau o'r adolygiad o gyllid addysgu wedi canolbwyntio i raddau helaeth ar egwyddorion trosfwaol y dull cyllido newydd. Ein bwriad yw cynnal ymgynghoriad cam tri gyda sefydliadau a gyllidir gan CCAUC o fis Hydref 2022 a fydd yn canolbwyntio ar agweddau technegol penodol ar y model newydd fel mapio data i'r grwpiau cost.

6. Roedd yn amlwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad cam dau bod sefydliadau am weld effaith ariannol ein cynigion. Ni fydd yr union oblygiadau o ran cyllid ar gyfer sefydliadau yn hysbys nes i gyllideb CCAUC gan Lywodraeth Cymru gael ei chadarnhau ar gyfer 2023-24 a blynyddoedd diweddarach. Fodd bynnag, rydym yn gallu modelu senarios ar sail y cyllid sydd ar gael ar gyfer y flwyddyn academaidd hon, sef 2022/23. Rydym yn bwriadu darparu data wedi’i fapio a modelau senarios i sefydliadau fel rhan o'r ymgynghoriad cam tri.

## Canlyniadau’r ymgynghoriad

7. Cawsom 11 o ymatebion i'r ymgynghoriad, a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2022. Roedd yr holl ymatebion a gafwyd gan sefydliadau a gyllidir gan CCAUC. Ceir crynodeb o fanylion yr ymatebion a rhestr o'r ymatebwyr yn **Atodiad A**.

8. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r egwyddor o ddefnyddio dull seiliedig-ar-gredydau newydd i ddyrannu cyllid craidd ar gyfer addysgu, a hwnnw’n cael ei ategu gan gyllid y pen a chyllid premiymau cymhelliant strategol. Roedd yr elfennau arfaethedig o’r model yn cael eu deall yn gyffredinol, gyda rhai awgrymiadau wedi'u gwneud am newidiadau, sydd wedi'u hadlewyrchu yn y casgliadau fel y bo'n briodol.

9. Roedd ymatebion i'r cwestiynau am grwpiau cost yn rhoi awgrymiadau ar gyfer grwpiau amgen ar gyfer rhai pynciau a disgyblaethau. Rydym wedi amlinellu yn y

cylchlythyr hwn pa newidiadau yr ydym yn bwriadu eu gwneud i'r broses fapio o ganlyniad.

10. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn croesawu’r syniad bod cyllid strategol ar gael, yn ychwanegol at y model cyllid addysgu fformiwläig, yn ogystal â newid i gael mwy o gyfartalwch rhwng cyllid ar gyfer darpariaeth israddedig amser llawn a rhan-amser.

11. Tynnodd yr ymatebwyr sylw hefyd at bwysigrwydd eglurder ynghylch gweithrediad y fethodoleg gyllido, a thryloywder y dyraniadau cyllid.

Q1: Ydych chi'n cytuno mai model seiliedig ar gredydau yw'r mecanwaith priodol ar gyfer darparu cyllid addysgu? Os nad ydych chi, pam ddim?

12. Roedd yr holl ymatebion yn cytuno bod model sy'n seiliedig ar gredydau’n fecanwaith priodol ar gyfer dyrannu cyllid addysgu sy’n cael ei ddeall yn dda o fewn y sector ac a allai ddarparu tegwch rhwng myfyrwyr beth bynnag fo’u dull o ddysgu.

**Casgliad:** Byddwn ni'n parhau i ddefnyddio model cyllido sy'n seiliedig ar gredyd i ddarparu cyllid addysgu ar gyfer sefydliadau a gyllidir gan CCAUC.

Q2: Ydych chi'n cytuno â'r elfennau hyn o fewn y model. Os ddim, pam ddim?

13. Roedd yr holl ymatebion yn cytuno â'r elfennau arfaethedig o'r model seiliedig-ar-gredydau fel a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad. Awgrymodd yr ymatebion y byddai'r model yn gwella'r cydbwysedd rhwng cyllid llawn amser a rhan-amser, ac y byddai'r defnydd o godau’r Dosbarthiad Pynciau Addysg Uwch (HECoS) yn helpu i sicrhau bod cyllid yn cael ei neilltuo'n briodol i feysydd pwnc penodol. Awgrymodd un ymateb y dylai'r cyfnod adennill fod yn hwy nag un flwyddyn.

**Casgliad:** Byddwn yn bwrw ymlaen â datblygu model sy'n seiliedig ar gredydau, fel a nodwyd yn yr ymgynghoriad. Rydym wedi ystyried a ddylai'r cyfnod adennill fod yn hwy nag un flwyddyn ac wedi dod i'r casgliad y byddai llai o recriwtio am ddwy flynedd neu fwy yn gyffredinol yn dangos tuedd ar i lawr y dylid ei adlewyrchu yn y model cyllido. Rydym felly wedi penderfynu peidio â diwygio'r elfen hon o'r model ar hyn o bryd.

Q3: A oes elfennau eraill yr hoffech eu gweld yn cael eu cynnwys. Os felly, beth ydyn nhw? Neu a oes unrhyw elfennau yr hoffech gael gwared â nhw, a pham?

14. Ni wnaeth y mwyafrif o ymatebion awgrymu unrhyw newidiadau i'r elfennau i'w cynnwys yn y model sy'n seiliedig ar gredydau. Awgrymodd un ymateb y dylem ddefnyddio canolfannau cost HESA yn y model yn lle codau HECoS.

**Casgliad:** Rydym wedi dewis defnyddio codau HECoS yn hytrach na chanolfannau cost HESA, gan bod aseinio adrannau i ganolfannau cost yn gallu amrywio rhwng darparwyr a chan nad yw canolfannau cost yn cael eu defnyddio gan ddarparwyr AB â darpariaeth AU a gyllidir yn uniongyrchol. Darperir y dull arfaethedig o fapio i grwpiau cost **Atodiad B**.

Q4: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch y dull a ddefnyddiwyd i fapio codau HECoS i grwpiau cost? Ydych chi'n cytuno â'r dull mapio? Os ddim, pam ddim, ac a oes unrhyw agweddau neilltuol sy'n broblemus, ar wahân i'r hyn yr ydych wedi'i gynnwys yn eich atebion i'r cwestiynau am godau HECoS neilltuol a grwpiau'r CAH isod? Beth yw'r agweddau hynny?

15. Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn gymysg ond ar y cyfan roeddent yn gefnogol i'r dull a ddefnyddir i fapio codau HECoS a'r allbwn mapio sy'n deillio o hynny. Fe wnaeth dau ymateb ailadrodd pryderon ynghylch defnyddio Ymagwedd Dryloyw'r DU at Gostio (Addysgu) (TRACT(T)) - fel sail i'r broses fapio ond nid awgrymodd ddulliau amgen. Cododd ymatebion eraill bryderon ynghylch canlyniadau'r broses fapio ar gyfer rhai pynciau.

**Casgliad**: Rydym o'r farn bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn rhoi digon o gefnogaeth i ni fwrw ymlaen â'r fethodoleg a ddefnyddir yn y broses fapio fel a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad. Fe wnaethon ni ystyried yr holl awgrymiadau a wnaed ar gyfer newidiadau i'r broses fapio ac rydym wedi gwneud newidiadau i'r grwpiau cost ar gyfer rhai pynciau lle'r oeddem yn ystyried bod hynny'n briodol. Mae'r newidiadau yr ydym yn eu gwneud yn ychwanegol at unrhyw rai a amlinellir yn y casgliadau ar gyfer cwestiynau 6a i 6g wedi'u rhestru isod. Mae'r rhain yn feysydd lle'r oeddem yn teimlo bod achos cryf wedi'i wneud dros ddiwygio'r broses fapio. Mae rhestr lawn o newidiadau a wnaed i'r broses fapio wreiddiol wedi'i chynnwys ym mharagraff 24.

- CAH11 – Cyfrifiadura: bydd yr holl godau HECoS yn y lefel CAH 1 hon yn cael eu cynnwys yng ngrŵp cost 3.
- CAH03-02 – Gwyddorau chwaraeon ac ymarfer corff: Bydd yr holl godau HECoS yn y lefel CAH 2 hon yn cael eu cynnwys yng ngrŵp cost 3.
- CAH02-02-03 – Fferylliaeth: bydd yr holl godau HECoS yn y lefel CAH 3 hon yn cael eu cynnwys yng ngrŵp cost 2.

Q5: A yw'r perthynoleddau rhwng y grwpiau cost yn briodol? Os ddim, pam ddim?

16. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno bod y perthynoleddau rhwng grwpiau cost yn briodol. Roedd sylwadau am y broses fapio ar gyfer y grwpiau cost, sy'n cael sylw yn ddiweddarach yn y ddogfen hon. Fe wnaeth rhai ymatebion hefyd ailadrodd sylwadau bod angen deall effaith y newidiadau ar sefydliadau yn unigol cyn cefnogi'r cynigion yn llawn.

**Casgliad**: Byddwn yn bwrw ymlaen â'r perthynoleddau pwnc fel a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad.

Q6a: Biobeirianneg, peirianneg feddygol a biofeddygol CAH lefel 3 (CAH10_01_06): Yn y grŵp hwn, caiff codau HECoS eu mapio i grwpiau cost 2, 3 a 4. A yw'r mapio ar gyfer y codau HECoS unigol yn y grŵp hwn yn briodol, neu a ddylid mapio'r holl godau HECoS yn y grŵp CAH hwn i grŵp costau 3? Os oes mapio o fewn y grŵp CAH lefel 3 hwn nad yw'n briodol yn eich barn chi, pa godau HECoS sydd wedi'u mapio'n anghywir a beth ydych chi'n meddwl y dylid mapio iddo yn eich barn chi, a pham?

17. Cymysg oedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn. Ni ddarparodd rhai ymatebwyr unrhyw sylw oherwydd nad oedd ganddynt ddarpariaeth berthnasol yn y pynciau hyn. Fe wnaeth ymatebion eraill awgrymu y dylid mapio'r pynciau hyn i un grŵp cost, ac mai naill ai grwp cost 2 neu 3 ddylai hwnnw fod. Awgrymwyd y dylid ail-godio Biomecaneg o grŵp cost 4 i grŵp cost uwch, oherwydd lefel o gynnwys Peirianneg sy’n debyg i’r pynciau eraill a oedd mewn grŵp cost uwch yn y broses fapio.

**Casgliad:** Ar ôl adolygu'r broses fapio eto ac ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym wedi cynnig y dylai'r holl bynciau peirianneg a thechnoleg (CAH10) fod mewn un grŵp cost, a grŵp cost 2 fydd y grŵp cost hwn. Byddai hyn yn galluogi pob pwnc peirianneg a thechnoleg i gael eu cyllido ar yr un sail ac yn y grŵp cost anghlinigol uchaf.

<u>Q6b: Peirianneg a thechnoleg CAH lefel 1 (CAH10): mae’r codau HECoS peirianneg a thechnoleg yn grwpiau cost 2 a 3 yn bennaf. Ydych chi 'n meddwl bod y codau peirianneg a thechnoleg HECoS wedi'u mapio i'r grwpiau cost cywir? A oes enghreifftiau neilltuol o fapio codau HECoS mewn peirianneg a thechnoleg o bryder ichi, a pham?</u>

18. Cymysg oedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd sawl ymateb yn cefnogi'r broses fapio. Fe wnaeth y mwyafrif o'r ymatebion a oedd yn anghytuno â’r broses fapio ar gyfer y codau HECoS hyn awgrymu y dylid defnyddio'r un grŵp cost (grŵp cost 2) ar gyfer pob pwnc yn y grŵp.

**Casgliad:** Fel uchod, rydym wedi cynnig y dylai'r holl bynciau peirianneg a thechnoleg (CAH10) fod mewn un grŵp cost, a grŵp cost 2 fydd y grŵp cost hwn.

<u>Q6c: Peirianneg drydanol ac electronig CAH lefel 3 (CAH10_01_08): mae dau god HECoS yn y grŵp hwn wedi’u mapio i grŵp costau 2 tra bo'r codau sy’n weddill wedi'u mapio i grŵp costau 3. Ydych chi'n ystyried bod y ddau bwnc hyn yn costio mwy na gweddill y pynciau yn y grŵp CAH, neu a ddylid cynnwys y rhain yng ngrŵp costau 3 hefyd? Esboniwch pam.</u>

19. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo’n gyffredinol y dylai pob cod pwnc peirianneg yn CAH10_01_08 fod yn yr un grŵp ac mai grŵp cost 2 ddylai hwn fod. Awgrymodd un ymateb y dylai peirianneg drydanol ac electronig fod mewn grŵp cost uwch na grŵp cost 2.

**Casgliad:** Fel uchod, rydym wedi cynnig y dylai'r holl bynciau sy'n seiliedig ar beirianneg (CAH10) fod mewn un grŵp cost, a grŵp cost 2 fydd y grŵp cost hwn.

<u>Q6d: Gwyddorau daearyddol ffisegol CAH lefel 3 (CAH26_01_02): mae’r codau HECoS yn y CAH hwn wedi’u mapio i gymysgedd o grŵp costau 2 a grŵp costau 4. Mae codau HECoS mewn Daearyddiaeth Ddynol wedi'u mapio i grŵp costau 4. A oes gwahaniaethau gwirioneddol o ran cost rhwng y codau yn y CAH lefel 3 yma, neu a ddylai'r holl godau yn y CAH lefel 3 yma fod yn yr un grŵp costau? Os dylent fod yn yr un grŵp costau, pa grŵp costau ddylai hwnnw fod (esboniwch pam)?</u>

20. Roedd yr ymatebion i’r cwestiwn hwn wedi’u hollti: roedd rhai o'r farn bod y mapio'n gywir a bod gwahaniaethau gwirioneddol mewn costau rhwng y codau pwnc hyn. Awgrymodd un ymateb nad oedd gwahaniaethau mawr mewn costau rhwng codau, ond y dylai'r rhain i gyd fod mewn grŵp cost uwch.

**Casgliad:** Rydym yn bwriadu defnyddio grŵp cost 3 ar gyfer y pwnc hwn, yn seiliedig ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac fel cyfaddawd rhwng grŵp cost 2 a grŵp cost 4.

<u>Q6e: Twristiaeth, teithio a thrafnidiaeth CAH lefel 3 (CAH17_01_06): mae'r codau HECoS yn y grŵp CAH lefel 3 hwn yn mapio i gymysgedd o grwpiau cost 3, 4 a 5. Mae gan rai o'r codau HECoS ddisgrifiadau tebyg felly gellid disgwyl iddynt gael eu mapio i grwpiau cost tebyg. A oes gwahaniaethau gwirioneddol o ran costau rhwng y codau o fewn y grŵp CAH lefel 3 hwn, neu a ddylid eu cynnwys yn yr un grŵp costau? Os oes gwahaniaethau, ydych chi o'r farn fod y codau HECoS wedi'u mapio i'r grwpiau cost cywir, neu a ddylid gwneud newidiadau, a pham? Os dylid eu cynnwys i gyd yn yr un grŵp costau, pa grŵp costau ddylai hwnnw fod a pham?</u>

21. Roedd yr ymatebion i’r cwestiwn hwn wedi’u hollti: ni chynigiodd rhai sefydliadau unrhyw sylw; roedd rhai’n cytuno bod y broses fapio'n briodol. Awgrymodd eraill y dylid defnyddio un grŵp cost ac mai grŵp cost 3 neu 4 ddylai hwn fod.

**Casgliad:** Rydym yn bwriadu defnyddio grŵp cost 4 ar gyfer y ddarpariaeth hon.

<u>Q6f: Nyrsio a bydwreigiaeth ac Iechyd Perthynol, CAH lefel 2 (CAH02_04 a CAH02_06): Mae’r ddau grŵp CAH lefel 2 hyn yng ngrŵp costau 4 yn bennaf. Yn flaenorol, roedd y rhan fwyaf o'r codau HECoS yn y grwpiau hyn yn ASC 2, a oedd yn cynnwys uned cyllid ar gyfer cyllid seiliedig ar gredyd israddedig rhan-amser, a oedd tua hanner ffordd, pe bai'r unedau cyllid yn cael eu trefnu o'r fwyaf i'r lleiaf. Dehongliad posibl o hyn yw bod y grŵp hwn o bynciau'n gymharol ratach nag o'r blaen. A yw'r mapio ar gyfer y ddau grŵp CAH lefel 2 hyn yn briodol. Os ddim, pam dim, ac a oes unrhyw godau HECoS neilltuol nad yw'n briodol ar eu cyfer?</u>

22. Cododd yr ymatebion nifer o ymholiadau ynghylch y broses fapio ar gyfer y pynciau hyn. Awgrymodd ambell ymateb y dylid rhoi rhai o'r pynciau hyn mewn grwpiau cost uwch nag a gynigiwyd, ond bod eraill fel nyrsio ac offthalmeg wedi'u mapio'n gywir. Roedd un ymateb yn erfyn ar CCAUC i fod yn ymwybodol bod y pynciau hyn yn cael cyllid gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru ac i sicrhau bod aliniad o ran nodau strategol y cyllid.

**Casgliad:** Byddwn yn bwrw ymlaen â mapio'r pynciau hyn i’r grwpiau cost a nodwyd yn yr ymgynghoriad. Mae llawer o'r ddarpariaeth hon yn cael ei chyllido'n uniongyrchol gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru ac nid ydym o'r farn bod digon o dystiolaeth i ni ddiwygio'r grwpiau cost ar gyfer y pynciau hyn ar hyn o bryd. Byddwn yn parhau i gynnal cyswllt ag AaGIC i drafod materion sy’n ymwneud â chyllido'r ddarpariaeth nad yw’n gallu cael ei chyllido gan AaGIC er mwyn nodi unrhyw newidiadau y bydd eu hangen yn y dyfodol.

<u>Q6g: Seicoleg CAH lefel 1 (CAH04): mae'r holl godau yn y grŵp CAH lefel 1 hwn wedi'u mapio i grŵp costau 5. Yn flaenorol, roedd y codau HECoS yn y grŵp CAH</u>

lefel 1 hwn wedi'u mapio i ASC 3, Gwyddoniaeth, a oedd yn gymharol ddrytach. A yw'r mapio i grŵp costau 5 yn briodol ar gyfer yr holl godau HECoS yn y grŵp CAH lefel 3 hwn? Ar gyfer unrhyw godau HECoS nad ydych chi'n meddwl bod y grŵp yn briodol ar eu cyfer, pa grŵp costau y dylid mapio'r codau iddynt a pham?

23. Roedd yr ymatebion yn anghytuno’n gyffredinol â'r broses fapio arfaethedig ar gyfer Seicoleg. Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn teimlo y dylai Seicoleg fod mewn grŵp cost uwch nag a gynigiwyd oherwydd ei fod yn bwnc drud i'w gyflwyno, gan ystyried costau staff, cymarebau staff/myfyrwyr ac offer labordy.

**Casgliad:** Rydym yn cynnig diweddaru'r grŵp cost ar gyfer codau HECoS lefel CAH 1 Seicoleg. Gan hynny, bydd y pynciau hyn yn awr yn cael eu cynnwys yng ngrŵp cost 3.

24. O ran cwestiynau 4 a 6a i 6g, isod ceir crynodeb o'r newidiadau yr ydym wedi'u cynnig i'r broses o fapio i grwpiau costau o'i gymharu â'r broses fapio wreiddiol a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad ac ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae manylion y broses o fapio codau HECoS i grwpiau cost yn Atodiad B. Bydd y broses derfynol o fapio i grwpiau cost yn cael ei chadarnhau pan fydd y model cyllido terfynol yn cael ei gyhoeddi. Sylwer fod CAH yn cyfeirio at fersiwn 1.3.4 o grwpiau pwnc yr hierarchaeth cydgasglu cyffredin ar gyfer codau HECoS. Mae CAHXX yn cyfeirio at grŵp lefel CAH 1, CAHXX-XX at lefel CAH 2 a CAHXX-XX-XX at lefel CAH 3. Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan HESA.

- CAH10 – Peirianneg a thechnoleg: bydd yr holl godau HECoS yn y lefel CAH 1 hon yn cael eu cynnwys yng ngrŵp cost 2.
- CAH26-01-02 – Gwyddorau daearyddol ffisegol: bydd yr holl godau HECoS yn y lefel CAH 3 hon yn cael eu cynnwys yng ngrŵp cost 3.
- CAH17-01-06 – Twristiaeth, teithio a thrafnidiaeth: bydd yr holl godau HECoS yn y lefel CAH 3 hon yn cael eu cynnwys yng ngrŵp cost 4.
- CAH04 – Seicoleg: bydd yr holl godau HECoS yn y lefel CAH 1 hon yn cael eu cynnwys yng ngrŵp cost 3.
- CAH11 – Cyfrifiadureg: bydd yr holl godau HECoS yn y lefel CAH 1 hon yn cael eu cynnwys yng ngrŵp cost 3.
- CAH03-02 – Gwyddor chwaraeon ac ymarfer corff bydd yr holl godau HECoS yn y lefel CAH 2 hon yn cael eu cynnwys yng ngrŵp cost 3.
- CAH02-02-03 – Fferylliaeth: bydd yr holl godau HECoS yn y lefel CAH 3 hon yn cael eu cynnwys yng ngrŵp cost 2.

Yn ogystal â'r newidiadau a restrir uchod, rydym wedi gwneud rhai mân newidiadau i'r model i dacluso meysydd lle'r oedd gwahaniaethau yn y broses o fapio i grwpiau cost ar gyfer codau HECoS o fewn lefel CAH 3.

- Cod HECoS 101318 - Cadwraeth bioamrywiaeth: wedi’i symud i grŵp cost 3 o grŵp cost 2.
- Cod HECoS 101326 – Gerontoleg: wedi’i symud i grŵp cost 5 o grŵp cost 4.

Q7: A yw'r ffioedd dysgu y bwriedir eu defnyddio yn y model yn briodol? Os ddim, pam ddim, a pha ddewisiadau arall sydd ar gael?

25. Roedd yr ymatebion i’r cwestiwn hwn wedi’u hollti. Roedd rhai sefydliadau o'r farn bod y lefelau ffioedd dysgu arfaethedig i'w defnyddio yn y model yn briodol. Roedd eraill o'r farn y dylai lefelau ffioedd ar gyfer darpariaeth israddedig ran-amser fod yn uwch, er mwyn adlewyrchu cyfraddau uwch a godir gan rai sefydliadau am rywfaint o'r ddarpariaeth hon. Roedd nifer o ymatebion i'w gweld fel pe baent yn nodi diffyg dealltwriaeth sut y byddai lefelau'r ffioedd yn cael eu defnyddio yn y model.

26. O ran ffioedd cyrsiau ôl-radd a addysgir, roedd ychydig o ymatebion yn awgrymu y byddai angen rhagor o waith i bennu ffi briodol i'w defnyddio yn y model.

**Casgliad:** Byddwn yn symud ymlaen at drydydd cam yr ymgynghoriad gan ddefnyddio’r lefelau ffioedd dysgu a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad cam dau. Byddwn yn ymdrechu i nodi’n gliriach sut mae'r holl elfennau'n gweithredu yn y modelau senario y byddwn yn eu rhannu yn nhrydydd cam yr ymgynghoriad a hefyd pan fyddwn yn cyhoeddi'r model terfynol. Os caiff darpariaeth ôl-radd a addysgir ei chynnwys yn y model yn y dyfodol, byddwn yn gwneud gwaith pellach ar gyfrifo lefelau ffioedd priodol.

<u>Q8: Ydych chi'n cytuno y dylem gynnwys credydau recriwtio ar gyfer blwyddyn ryngosod a blynyddoedd iaith dramor ar ffurf cyfran o uchafswm y ffioedd dysgu israddedig amser llawn a godir yn unol â'r rheoliadau?</u>

27. Roedd ymatebion i'r cwestiwn hwn yn gyffredinol yn cefnogi'r cynnig. Awgrymodd un ymateb y dylai’r holl gredydau ar gyfer blwyddyn allan gael yr un lefel o gyllid â’r myfyrwyr hynny sy’n astudio’r flwyddyn lawn ac nad ydynt yn cymryd blwyddyn ryngosod/lleoliad, er mwyn adlewyrchu cost gwasanaethu’r flwyddyn allan (darparu cymorth staff a diwallu anghenion addysgol y myfyrwyr).

**Casgliad:** Byddwn yn mynd ymlaen i gynnwys credydau recriwtio ar gyfer blwyddyn ryngosod a blynyddoedd iaith dramor ar ffurf cyfran o uchafswm y ffioedd dysgu israddedig amser llawn a godir yn unol â'r rheoliadau.

<u>Q9: Ydych chi'n cytuno â'r fethodoleg i gyfrifo uchafswm y credydau a gyllidir cyn twf? Os ddim, pam ddim, a beth arall ydych chi'n ei awgrymu yn lle hynny?</u>

28. Roedd ymatebion i'r cwestiwn hwn yn gyffredinol yn cefnogi'r cynnig. Fe wnaeth ymatebion eraill godi materion i CCAUC eu hystyried wrth weithredu'r cynnig, megis: sicrhau bod y fethodoleg derfynol yn glir ac yn hawdd i'w deall; sicrhau bod diffiniadau a ddefnyddir yn y model yn cael eu deall yn dda (e.e. fel 'modiwl a gwblheir') a blaenoriaethu twf darpariaeth ran-amser yn y dyfodol lle mae adennill yn digwydd, yn dilyn cyfnod o ddirywiad.

**Casgliad:** Byddwn yn bwrw ymlaen â'r fethodoleg i gyfrifo'r nifer uchaf o gredydau a gyllidir cyn twf, fel a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad. Byddwn yn sicrhau bod pob elfen o'r model yn cael eu hesbonio'n glir pan fyddwn ni'n cyhoeddi'r dull terfynol.

<u>Q10: A yw'r elfen adennill yn gweithio fel ffordd o ysgogi cynnydd mewn cyfraddau recriwtio drwy sicrhau na fydd gostyngiad mewn cyfraddau recriwtio yn ystod un</u>

flwyddyn yn effeithio ar y credydau a gyllidir am gyfnod hwy na blwyddyn? Os ddim, pam ddim, ac oes gennych chi unrhyw awgrymiadau eraill?

29. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi'r syniad o'r elfen adennill, er nad oedd ychydig o ymatebion yn cytuno y byddai'n gweithredu fel cymhelliant recriwtio ynddi'i hun. Awgrymodd un ymateb y dylai'r cyfnod adennill fod yn hwy na blwyddyn.

**Casgliad:** Byddwn ni'n bwrw ymlaen gyda chynnwys yr elfen adennill yn y model terfynol. Byddwn yn parhau i adolygu'r cyfnod adennill.

Q11: Ydych chi'n cytuno y dylid cynnwys y gallu i ddarparu cyllid ar gyfer y ddau fath hyn o dwf yn y model? Os ddim, pam ddim, ac a fyddech yn awgrymu ffordd arall o gynnwys twf (manylwch), neu beidio â'i gynnwys o gwbl?

30. Roedd yr ymatebwyr yn gefnogol yn gyffredinol i'r cynnig i ddarparu cyllid ar gyfer trosiant ffioedd yn unig (lle bo ffioedd yn unig yn gredydau a gaiff eu recriwtio'n ychwanegol at y nifer cyfredol o gredydau a gyllidir), a thwf ychwanegol y gellir ei ychwanegu at y credydau a gyllidir. Awgrymodd un ymateb y dylai CCAUC wneud dyraniadau yn unol â strategaethau sefydliadol ac amgylchiadau unigol, yn hytrach na thrwy ddull fformiwläig. Roedd ymateb arall yn cefnogi'r cynnig cyn belled â'i fod yn darparu ar gyfer twf wedi'i dargedu.

**Casgliad:** Byddwn yn mynd ymlaen i gynnwys y ddau fath yma o dwf yn y model newydd.

Q12: Ydych chi'n cytuno y dylai fod yn bosibl cynnwys cymhelliant yn y model? Os felly a yw'r dull a gynigir yn ffordd dda o wneud hyn? Os ddim, pam ddim, a pha ddull fyddech chi'n ei awgrymu yn lle hynny?

31. Roedd ymatebwyr yn gefnogol yn gyffredinol i'r cynnig. Awgrymodd un ymateb fod angen i unrhyw gymhelliant fod yn strategol a bod angen ei wneud gyda digon o rybudd i sefydliadau ei weithredu. Roedd ymateb arall yn cefnogi'r cynnig cyn belled â'i bod yn glir pa faes y byddai'r cymhelliant yn cael ei gynnig ynddo. Awgrymodd ymateb pellach y gallai sefydliadau wynebu heriau o ran fforddio a chynnal darpariaeth newydd, gyda dim ond blwyddyn o dwf yn cael ei gynnwys yn y model newydd.

**Casgliad:** Byddwn yn mynd ymlaen i gynnwys y posibilrwydd o gymhelliant recriwtio o fewn y model, gan ddefnyddio'r dull a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad.

Q13: A oes unrhyw ystyriaeth arall yr hoffech ei chynnwys yn y model? Os felly, beth ydych chi'n meddwl y dylid ei gynnwys? A oes unrhyw beth yn y model na ddylid ei gynnwys yn eich barn chi? Os felly, beth a pham?

32. Ni wnaeth y mwyafrif o'r ymatebion awgrymu unrhyw beth arall i'w gynnwys yn y model. Awgrymodd un ymateb y dylai'r fethodoleg ystyried sut y gallai deilliannau llwyddiannus gael eu cydnabod a sut y gellid rhoi cymhelliant ar eu cyfer. Awgrymodd ymateb arall y gallai cyllid ar gyfer costau dechrau darpariaeth newydd gael ei gynnwys yn y model.

**Casgliad:** Mae deilliannau llwyddiannus ar gyfer myfyrwyr yn ganolbwynt allweddol i'n dull rheoleiddio. Byddwn yn parhau i adolygu sut mae ein swyddogaethau cyllido a rheoleiddio’n cyd-fynd â’i gilydd, a sut y gellir parhau i roi cymhelliant ar gyfer perfformiad cadarnhaol. Byddwn yn ystyried yr awgrym i ddarparu cyllid ar gyfer costau dechrau darpariaeth newydd mewn unrhyw gyfleoedd cyllido ar gyfer datblygiad strategol yn y dyfodol.

Q14: Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ynghylch y mewnbynnau y dylid eu defnyddio yn y model, neu'r allbynnau a restrir isod? Rhowch fanylion.

33. Dim ond un ymateb a ddarparodd sylw mewn perthynas â'r cwestiwn hwn, gan awgrymu y byddai'n ddefnyddiol pe bai ymgynghoriad ynghylch y meysydd cymhelliant a adlewyrchir yn y model fel y gallai blaenoriaethau'r llywodraeth gael eu cefnogi'n briodol gan y sector.

**Casgliad:** Byddwn yn ystyried yr awgrym hwn fel rhan o'n hymgysylltiad parhaus â sefydliadau.

Q15: Gan bwyso a mesur manteision ac anfanteision HESES a Monitro Diwedd Blwyddyn, pa un fyddech chi'n ei ffafrio i'w ddefnyddio yn y model ar gyfer credydau recriwtio? (Gan gofio y byddai defnyddio HESES yn golygu casglu data HESES ar gyfer darpariaeth israddedig amser llawn a rhyngosod, yn ogystal â darpariaeth israddedig ran-amser, ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23; a byddai data a echdynnir o gofnod myfyrwyr HESA ar gyfer EYM yn berthnasol i flwyddyn academaidd 2021/22.) Esboniwch eich rhesymau.

34. Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn gytbwys rhwng HESES ac EYM, gydag ychydig yn fwy o ymatebwyr yn ffafrio EYM. Darparodd yr ymatebion resymau dros gefnogi pob dull, ac roeddent yn annog CCAUC i ystyried lleihau baich yn y broses derfynol. Cyfeiriodd yr ymatebion at weithredu Data Futures cyn bo hir fel rheswm dros leihau baich a llwyth gwaith. Nododd rhai ymatebion fod HESES yn fwy cyfoes, tra bod EYM yn gyson â methodolegau eraill a ddefnyddir mewn prosesau cyllido.

**Casgliad:** Byddwn yn bwrw ymlaen â defnyddio data EYM yn y model i gyfrifo credydau a recriwtiwyd, er mwyn lleihau baich ar gyfer darparwyr a CCAUC, ac i ddefnyddio data HESA mewn cyllid yn gyson. Mae hyn hefyd wedi cael ei gadarnhau yn ymgynghoriad HESES a gyhoeddwyd yn ddiweddar (cylchlythyr W22/33HE).

Q16: Gan dybio bod data yn ystod y flwyddyn ar gael, a fyddech yn fodlon â model a fyddai'n defnyddio 12 mis o ddata recriwtio yn hytrach na blwyddyn academaidd? Os ddim, pam ddim? Beth fyddech chi'n ei awgrymu yn lle hynny, a beth fyddai'r manteision cysylltiedig?

35. Roedd y mwyafrif o’r ymatebwyr yn cytuno, er gyda rhai cafeatau, y byddai 12 mis o ddata recriwtio’n well na data dros flwyddyn academaidd. Roedd ychydig o ymatebion yn ffafrio defnyddio data dros flwyddyn academaidd yn hytrach na data dros flwyddyn galendr, gydag un ymateb yn awgrymu y byddai'n cyd-fynd yn well â gweinyddiaeth a phrosesau sefydliadol. Dywedodd ymatebwyr y bydden nhw'n

croesawu rhagor o wybodaeth am sut y byddai'r broses o gasglu data yn gweithredu ac ar ba bwynt yn y flwyddyn y byddai'r data'n cael ei gasglu.

**Casgliad:** Rydym yn bwriadu newid i ddefnyddio 12 mis o ddata recriwtio yn y model, yn hytrach na data dros flwyddyn academaidd, pan allwn ddefnyddio data yn ystod y flwyddyn a gasglwyd gan HESA. Byddwn yn ymgynghori ymhellach ar sut byddai hyn yn gweithredu yn y dyfodol.

Q17: Ydych chi'n cytuno â'r dull a gynigir ar gyfer cyfrifo unrhyw addasiad i'r cyllid, fel y nodir ym mharagraffau 64 a 69? Os ddim, pam ddim, a beth arall ydych chi'n ei awgrymu yn lle hynny?

36. Roedd y mwyafrif o’r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig ar gyfer cyfrifo addasiadau i’r cyllid. Awgrymodd un ymateb na ddylai’r lefel astudio gael ei thrin ar wahân yn y model. Awgrymodd ymateb arall y dylai'r model ddarparu ar gyfer twf cyflym.

**Casgliad:** Byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig i gyfrifo addasiadau i’r cyllid, fel a nodwyd yn yr ymgynghoriad.

Q18: Oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau eraill ynghylch data recriwtio i'w defnyddio yn y model?

37. Nid oedd gan y mwyafrif o'r ymatebwyr unrhyw sylwadau pellach. Roedd gweddill yr ymatebion yn cyfeirio at faich fel pryder, gydag un yn awgrymu y gallai baich gael ei leihau drwy ddefnyddio data HESA yn unig.

**Casgliad:** Byddwn yn parhau i adolygu ein gofynion casglu data yn gyson. Gallai cyflwyno Data Futures hwyluso lleihad mewn baich yn y dyfodol, ond byddai unrhyw newidiadau'n amodol ar ymgysylltu ac ymgynghori â darparwyr.

Q19: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddarparu cyllid atodol ar gyfer pynciau drud drwy'r dull newydd seiliedig ar gredydau? Esboniwch eich ateb.

38. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'n cynnig i ddarparu cyllid atodol ar gyfer pynciau drud drwy'r dull sy'n seiliedig ar gredydau. Fe wnaeth ymatebwyr annog CCAUC i sicrhau nad oedd y cyllid a ddarperir drwy'r dull hwn yn is na'r hyn a ddarperir ar hyn o bryd drwy'r premiwm pynciau drud.

**Casgliad:** Byddwn yn parhau i ddarparu cyllid ar gyfer pynciau drud ac yn defnyddio'r dull seiliedig-ar-gredydau fel y mecanwaith ar gyfer hyn.

Q20: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddarparu cyllid atodol ar gyfer pynciau cost uwch drwy'r dull newydd seiliedig ar gredydau? Esboniwch eich ateb.

39. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'n cynnig i ddarparu cyllid atodol ar gyfer pynciau cost uwch drwy'r dull sy'n seiliedig ar gredydau. Ni allai un ymatebwr gymeradwyo'r cynnig yn llawn heb ddeall yr effaith y byddai'n ei chael ar y sefydliad.

**Casgliad:** Byddwn yn cynllunio ar gyfer defnyddio'r model seiliedig-ar-gredydau i ddarparu cyllid ar gyfer pynciau cost uwch, fel a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad.

Q21: Ydych chi'n cytuno y dylem barhau i ddarparu cyllid premiwm ar y sail hon?

40. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno y dylem barhau i ddarparu cyllid premiwm mewn perthynas â myfyrwyr ag anableddau. Awgrymodd un ymateb y dylem symleiddio ein methodoleg gyllido ymhellach ac ystyried cael gwared ar y cyllid premiwm, gyda chymorth yn cael ei roi drwy'r cynlluniau ffioedd a mynediad. Tynnodd ymatebion eraill sylw at anawsterau posibl mewn perthynas â chymhwystra a myfyrwyr yn gallu cael mynediad at gyllid Lwfans Myfyrwyr Anabl.

**Casgliad:** Byddwn yn parhau i ddarparu cyllid premiwm i sefydliadau i recriwtio a chefnogi myfyrwyr ag anableddau.

Q22: £300 yw lefel y cyllid sy'n gysylltiedig â phob myfyriwr ar hyn o bryd. Ydych chi'n cytuno bod y swm hwn yn briodol wrth gyfrifo cyllid premiwm? Os nad ydych chi, pam ddim?

41. Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn yma wedi'u hollti'n gyfartal, gyda rhai'n awgrymu bod y swm yn briodol, ac eraill yn awgrymu y dylai fod ar lefel uwch. Awgrymodd un ymateb y dylem gyfuno cyllid premiwm anabledd o fewn y dull seiliedig-ar-gredydau, ac y dylid cefnogi myfyrwyr ag anableddau drwy fuddsoddi mewn cynlluniau ffioedd a mynediad yn lle hynny. Cyfeiriodd sawl ymateb at chwyddiant, costau byw, a chostau asesiadau diagnostig fel rhesymau pam y dylid cynyddu'r swm premiwm.

**Casgliad:** Rydym yn cefnogi'r nod, mewn egwyddor, o gynyddu swm y cyllid i bob myfyriwr yn y premiwm anabledd. Fodd bynnag, bydd y penderfyniad yn amodol ar argaeledd cyllideb yn ôl yr hyn a gaiff ei gadarnhau mewn yng nghyllidebau Llywodraeth Cymru ar gyfer CCAUC yn y dyfodol.

Q23: Beth yw eich barn am y posibilrwydd o ddiwygio’r premiwm mynediad a chadw i gynnwys darpariaeth israddedig amser llawn yn ogystal â darpariaeth israddedig ran-amser? Esboniwch eich ateb.

42. Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi’u hollti. Roedd rhywfaint o gefnogaeth i ehangu'r premiwm; fodd bynnag nid oedd ymatebion eraill yn cytuno â'r cynnig ac fe wnaethant awgrymu y dylai'r premiwm barhau i flaenoriaethu darpariaeth israddedig, ran-amser yn unig.

**Casgliad:** Rydym wedi myfyrio ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac rydym yn ymgymryd â gwaith modelu a dadansoddi pellach cyn dod i gasgliad terfynol. Byddwn ni'n cadarnhau canlyniadau'r gwaith hwn maes o law.

Q24: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i barhau i ddefnyddio'r mapiau daearyddol a ddefnyddiwyd ynn nyraniadau cyllid 2022/23 i rannu myfyrwyr wedi'u cynnwys yn y dyraniad i gategorïau ardaloedd o amddifadedd a chyfranogiad isel? Esboniwch eich ateb.

43. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'n cynnig i ddefnyddio'r mapiau daearyddol a ddefnyddiwyd yn 2022/23 mewn perthynas ag ardaloedd amddifadus ac ardaloedd â chyfranogiad isel. Awgrymodd un ymateb y byddai'r cynnig o fudd i

fyfyrwyr nad oeddent yn byw yn ardaloedd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019. Awgrymodd ymateb arall y dylai CCAUC ystyried diffiniad amgen o ehangu mynediad, gan ystyried data a gesglir drwy HESA.

**Casgliad:** Byddwn yn bwrw ymlaen â'n cynnig i barhau i ddefnyddio'r mapiau daearyddol a ddefnyddiwyd yn nyraniadau cyllid 2022/23 mewn perthynas ag ardaloedd amddifadus ac ardaloedd â chyfranogiad isel. Byddwn ni'n parhau i ymgysylltu â darparwyr ar faterion sy'n effeithio ar gymhwystra, gan gynnwys ehangu mynediad, cyfranogiad a materion dwysedd poblogaeth.

Q25: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiweddaru data'r cyfrifiad a ddefnyddiwyd i fapio codau post ag ardaloedd cyfranogiad isel o 2011 i 2021, pan fydd data priodol ar gael? Esboniwch eich ateb.

44. Roedd yr holl ymatebion yn cefnogi'r cynnig.

**Casgliad:** Byddwn yn bwrw ymlaen fel a fwriadwyd.

Q26: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i barhau i ddefnyddio cyfran y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n dod o gwintelau 1 a 2 ym MALIC19, ar drothwy o 35%, i gynnwys darparwyr yn y categori ehangu mynediad. Esboniwch eich ateb.

45. Roedd y mwyafrif o ymatebion o blaid defnyddio'r trothwy o 35% i gategoreiddio darparwyr fel darparwyr ehangu mynediad. Nid oedd gweddill yr ymatebion yn cefnogi'r cynnig ac fe wnaethant awgrymu y dylai'r trothwy naill ai gael ei ostwng neu ei ddileu'n llwyr.

**Casgliad:** Byddwn yn bwrw ymlaen â'n cynnig i barhau i ddefnyddio cyfran y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sydd o gwintelau 1 a 2 ym MALIC19, gyda throthwy o 35%, i gategoreiddio darparwyr fel darparwyr ehangu mynediad.

Q27: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i barhau i ddefnyddio'r categorïau cadw a geir ym model 2022/23? Esboniwch eich ateb.

46. Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn cefnogi'r cynnig i barhau i ddefnyddio'r categorïau cadw a ddefnyddiwyd ym model 2022/23. Roedd un ymateb yn cefnogi'r cynnig ond byddai'n dymuno gweld y trothwy o 35% yn cael ei ddileu. Roedd un ymateb yn anghytuno â'r cynnig, gan awgrymu yn lle hynny y dylem gael gwared ar y cyllid premiwm yn gyfan gwbl, fel a nodwyd mewn mannau eraill yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, at ddiben symlrwydd a lleihau baich.

**Casgliad:** Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r categorïau cadw a ddefnyddiwyd ym model 2022/23.

Q28: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gynyddu'r gwahaniaeth cymharol mewn cyfraddau cyllid rhwng y ddau gategori cadw? Os felly, beth fyddech chi'n ei awgrymu fel gwahaniaeth a pham, ac a ddylai fod yr un peth ar gyfer pob categori daearyddol, neu os ddim, esboniwch eich ateb.

47. Roedd y mwyafrif o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cefnogi'r cynnig. Roedd un ymateb yn cytuno mewn egwyddor gan awgrymu bod pwysleisio pwysigrwydd

cadw dros recriwtio'n bwysig er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn cael cefnogaeth lawn i gamu ymlaen yn dda drwy eu hastudiaethau prifysgol. Dywedodd ymatebion eraill y bydden nhw'n croesawu rhagor o wybodaeth er mwyn deall rhesymeg ac effaith y cynnig.

**Casgliad:** Rydym wedi myfyrio ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac rydym yn gwneud gwaith modelu a dadansoddi pellach cyn dod i gasgliad terfynol. Byddwn ni'n cadarnhau canlyniadau'r gwaith hwn maes o law.

<u>Q29: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gadw'r gwahaniaethau cymharol rhwng y tair cyfradd gyllido ar gyfer y grwpiau daearyddol (MALIC19 a darparydd ehangu mynediad, MALIC19 a heb fod yn ddarparydd ehangu mynediad ac ardaloedd cyfranogiad isel)? Esboniwch eich ateb.</u>

48. Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn amrywiol. Roedd ambell ymateb yn croesawu'r gydnabyddiaeth bod angen adnoddau ychwanegol weithiau i gefnogi a galluogi cadw a dilyniant effeithiol ar gyfer myfyrwyr ehangu mynediad. Nid oedd un ymateb yn deall y rhesymeg dros y gwahaniaethau cymharol, gan ddweud y dylai'r gwahaniaethau cymharol rhwng myfyrwyr "wedi'u cadw" a "heb eu cadw" fod yn debyg ar draws y tri grŵp.

**Casgliad:** Byddwn yn cadw'r gwahaniaethau cymharol rhwng y tair cyfradd o gyllid ar gyfer y grwpiau daearyddol (MALIC19 ac yn ddarparwr ehangu mynediad, MALIC19 ac nid yn ddarparwr ehangu mynediad ac ardaloedd â chyfranogiad isel). Roedd digon o gefnogaeth yn yr ymatebion i ni barhau â'r dull hwn.

<u>Q30: Ydych chi'n cytuno y dylem barhau i gynnig cyllid fesul pen? Esboniwch eich ateb.</u>

49. Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn cytuno y dylem ni barhau i gynnig cyllid y pen. Awgrymodd ymatebion eraill fod y cyllid ar ei lefel gyfredol yn aneffeithiol ac y dylid ei ddileu, ei gynyddu, neu ei ddyrannu mewn ffordd fwy strategol.

**Casgliad:** Byddwn yn parhau i ddarparu cyllid y pen ar gyfer pob lefel a dull astudio a addysgir.

<u>Q31: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddarparu cyllid fesul pen ar sail cyfradd sy'n amrywio rhwng gwahanol foddau a lefelau? Esboniwch eich ateb.</u>

50. Cymysg oedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd y mwyafrif o'r ymatebion o blaid y cynnig i ddarparu cyllid y pen ar sail amrywiadwy, gyda'r flaenoriaeth i fyfyrwyr rhan-amser. Roedd ymatebion a oedd yn anghytuno yn awgrymu cael gwared ar gyllid y pen yn gyfan gwbl, fel a nodwyd mewn mannau eraill.

**Casgliad:** Byddwn yn parhau i ddarparu cyllid y pen ar sail cyfradd sefydlog, fel yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd.

<u>Q32: Ydych chi'n cytuno y dylem ddarparu lefel uwch o gyllid fesul pen ar gyfer darpariaeth israddedig ran-amser, a chadw'r cyfraddau ar gyfer darpariaeth israddedig amser llawn, ôl-radd amser llawn ac ôl-radd rhan-amser yr un peth? Esboniwch eich ateb.</u>

51. Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi'u hollti, ac roeddent yn gyffredinol yn adlewyrchu'r ymatebion i gwestiwn 31, ond roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn cefnogi'r cynnig i flaenoriaethu darpariaeth ran-amser, israddedig yn y ffrwd cyllid y pen. Roedd yr ymatebion o blaid y cynnig yn croesawu'r bwriad i sicrhau cyfartalwch rhwng dulliau astudio rhan-amser ac amser llawn, gan bod darpariaeth israddedig ran-amser yn ddrutach i'w chyflwyno.

**Casgliad:** Fel a nodwyd uchod, byddwn yn cynllunio ar gyfer parhau i ddarparu cyllid y pen ar sail cyfradd sefydlog, fel yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd, ar gyfer pob dull astudio a addysgir.

## Y camau nesaf

52. Rydym yn bwriadu cynnal ymgynghoriad cam tri gyda a gyllidir o fis Hydref 2022. Bydd hyn yn cynnwys gwaith modelu manylach ar gyfer y dull cyllido seiliedig-ar-gredydau a mapio data monitro diwedd blwyddyn HESA i grwpiau cost. Bydd canlyniadau cam tri yn goleuo'r dull cyllido terfynol a hefyd yn llywio'r dyddiad y bydd y dull cyllido newydd yn cael ei roi ar waith.

53. Bydd y dull cyllido terfynol, unwaith y caiff ei gymeradwyo gan y Cyngor, yn cael ei gyhoeddi ar wefan CCAUC, gyda gwybodaeth ategol ynghylch sut y bydd y dull yn gweithredu, pa ddata fydd yn cael ei ddefnyddio, pa gamau y byddwn yn eu cymryd i gynorthwyo sefydliadau i bontio i'r dull newydd a'n cynlluniau i adolygu'r broses o roi'r model newydd ar waith.

## Rhagor o wybodaeth

54. I gael rhagor o wybodaeth am yr adolygiad o gyllid addysgu cysylltwch â Nicola Hunt (029 2085 9735; nicola.hunt@hefcw.ac.uk).

## Asesu effaith ein polisïau

55. Mae Polisi a Gweithdrefnau Asesu Effaith CCAUC yn nodi sut yr ydym yn asesu effaith debygol – boed yn gadarnhaol neu negyddol – polisïau ac arferion arfaethedig mewn perthynas â chyflawni ein cyfrifoldebau o dan:
    - Ddeddf Cydraddoldeb 2010
    - Safonau'r Gymraeg 2018
    - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

56. Fe wnaethom asesu effaith y newidiadau arfaethedig a amlinellwyd yng nghylchlythyr ymgynghoriad cam dau. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn cefnogi ein cynigion i flaenoriaethu mynediad a chadw, gan ystyried ardaloedd â chyfranogiad isel ac ardaloedd amddifadus. Roedd ymatebion hefyd yn ein hannog i gynyddu ein cyllid ar gyfer sefydliadau mewn perthynas â myfyrwyr ag anableddau, y byddwn yn parhau i'w adolygu'n gyson ac yn amcanu at ei gynyddu, ar yr amod bod digon o gyllid ar gael. Fe wnaeth ymatebion i'r

ymgynghoriad cam un gynghori y dylai darpariaeth cyfrwng Cymraeg ddal i fod yn faes sy'n flaenoriaeth ar gyfer ein cyllid. Ni chodwyd unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad cam dau.

57. Byddwn yn parhau i adolygu ein hasesiad effaith yn gyson er mwyn helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb. Cysylltwch ag equality@hefcw.ac.uk i gael rhagor o wybodaeth am asesiadau effaith.

**Crynodeb o'r ymatebion - Ymgynghoriad cam dau ar gyllid addysgu**

Nifer yr ymatebwyr: 11

Pwyntiau allweddol:

- Fe ymatebodd pob un ond un o'r sefydliadau a gyllidir gan CCAUC. Ni chafwyd unrhyw ymatebion eraill.
- Diolchodd nifer o'r ymatebion i ni am ymgysylltu â'r sector i ddatblygu cynigion.
- Roedd ychydig o ymatebion yn dynodi peth petruster ynghylch cefnogi'r cynigion yn llawn heb wybod beth fyddai'r effaith ariannol ar ddyraniadau cyllid.
- Roedd cytundeb cyffredinol â'r model newydd, y perthynoleddau pynciau a'n cynigion i barhau i ddarparu cyllid premiwm a chyllid y pen, gyda rhai cafeatau.
- Roedd yr ymatebion yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol mewn perthynas â'r grwpiau cost arfaethedig, gydag awgrymiadau ar gyfer newidiadau i rai grwpiau.

**Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno mai model seiliedig ar gredydau yw'r mecanwaith priodol ar gyfer darparu cyllid addysgu? Os nad ydych chi, pam ddim?**

Ydym: 11

**Sylwadau:**

- Roedd yr ymatebion yn cefnogi'r cynnig i barhau i ddefnyddio model seiliedig-ar-gredydau fel mecanwaith priodol ar gyfer darparu cyllid addysgu, gan ddweud bod cyllid seiliedig-ar-gredydau CCAUC yn galluogi sefydliadau i roi darpariaeth o ansawdd da a chefnogi llwyddiant myfyrwyr, trwy ddull a oedd wedi hen ennill ei blwyf ac yn cael ei ddeall.

**Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno â'r elfennau hyn o fewn y model. Os ddim, pam ddim?**

Ydym: 10
Ydym gyda chafeat:
Nac ydym:
Ddim yn gwybod/ddim yn berthnasol/dim sylw: 1

**Sylwadau:**

- Roedd yr ymatebion yn cytuno â'r elfennau allweddol o'r model seiliedig-ar-gredydau yn yr ymgynghoriad ac yn croesawu'r cyfle i symleiddio'r model, gan nodi y gellid ei gymhwyso i wahanol senarios cyllido ar gyfer darpariaeth sy'n dwyn credydau.
- Awgrymodd un ymateb y byddai defnyddio codau'r Dosbarthiad Pynciau Addysg Uwch (HECoS) yn helpu i sicrhau bod cyllid yn cael ei aseinio'n gywir i feysydd pwnc penodol.
- Awgrymodd un ymateb y gallai'r model wella'r cydbwysedd rhwng cyllid amser llawn a rhan-amser yn y sector addysg uwch.
- Fe wnaeth un ymateb groesawu'r elfen adennill credydau o fewn y model.

**Cwestiwn 3: A oes elfennau eraill yr hoffech eu gweld yn cael eu cynnwys. Os felly, beth ydyn nhw? Neu a oes unrhyw elfennau yr hoffech gael gwared â nhw, a pham?**

Oes: 1
Oes gyda chafeat:
Nac oes: 10
Ddim yn gwybod/ddim yn berthnasol/dim sylw:

**Sylwadau:**

- Awgrymodd un sefydliad y dylem ystyried defnyddio canolfannau cost HESA yn y broses fapio yn lle grwpiau HECoS.

**Cwestiwn 4: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch y dull a ddefnyddiwyd i fapio codau HECoS i grwpiau cost? Ydych chi'n cytuno â'r dull mapio? Os ddim, pam ddim, ac a oes unrhyw agweddau neilltuol sy'n broblemus, ar wahân i'r hyn yr ydych wedi'i gynnwys yn eich atebion i'r cwestiynau am godau HECoS neilltuol a grwpiau'r CAH isod? Beth yw'r agweddau hynny?**

Oes: 2
Oes gyda chafeatau: 5
Nac oes: 1
Ddim yn gwybod/ddim yn berthnasol/dim sylw: 3

**Sylwadau**:

- Roedd y mwyafrif o’r ymatebion yn cefnogi’r dull a ddefnyddiwyd i fapio codau HECoS i grwpiau cost.
- Awgrymodd un ymateb nad oedd y broses fapio’n rhoi cyfrif yn llawn am gostau ychwanegol, megis amser mewn labordai ac offer ar gyfer pynciau ymarferol.
- Cododd dau ymateb bryderon blaenorol ynghylch defnyddio data TRAC(T) fel y sail i’r broses fapio
- Cododd ymatebion eraill bryderon ynghylch canlyniadau’r broses fapio ar gyfer rhai pynciau.

**Cwestiwn 5: A yw'r perthynoleddau rhwng y grwpiau cost yn briodol? Os ddim, pam ddim?**

Ydynt: 5
Ydynt, gyda chafeatau: 3
Nac ydynt: 1
Ddim yn gwybod/ddim yn berthnasol/dim sylw: 2

**Sylwadau:**

- Roedd y mwyafrif o’r ymatebwyr yn cytuno bod y perthynoleddau rhwng grwpiau cost yn briodol.
- Dywedodd un ymateb fod y dull yn addas ar gyfer y diben a’i bod hi’n hen bryd diweddaru’r perthynoleddau rhwng grwpiau cost. Fodd bynnag, roedd y sefydliad yn pryderu bod Gwyddor Chwaraeon wedi’i phrisio’n rhy isel oherwydd natur eu darpariaeth.
- Dynododd un ymateb fod y sefydliad yn hapus ar y cyfan ond bod pryderon ynghylch effaith ariannol y cynigion.

- Dynododd ymateb arall fod gan y sefydliad rai pryderon ynghylch y dyraniadau pwnc yn y grwpiau cost, yn enwedig o'i gymharu â'r pynciau sy'n seiliedig ar wyddoniaeth a pheirianneg.
- Dywedodd ymateb arall ei bod yn anodd pwyso a mesur effaith y perthynoleddau rhwng grwpiau cost heb fanylion y cyllid a fydd ar gael, a'i bod yn debygol y byddai enillwyr a chollwyr o ganlyniad i ddefnyddio'r model newydd.
- Awgrymodd ymateb arall y dylai unrhyw newidiadau i grwpiau cost gael eu hystyried mewn perthynas â'r perthynoleddau pynciau hefyd.

**Cwestiwn 6a: Biobeirianneg, peirianneg feddygol a biofeddygol CAH lefel 3 (CAH10_01_06): Yn y grŵp hwn, caiff codau HECoS eu mapio i grwpiau cost 2, 3 a 4. A yw'r mapio ar gyfer y codau HECoS unigol yn y grŵp hwn yn briodol, neu a ddylid mapio'r holl godau HECoS yn y grŵp CAH hwn i grŵp costau 3? Os oes mapio o fewn y grŵp CAH lefel 3 hwn nad yw'n briodol yn eich barn chi, pa godau HECoS sydd wedi'u mapio'n anghywir a beth ydych chi'n meddwl y dylid mapio iddo yn eich barn chi, a pham?**

Ydy: 1
Ydy, gyda chafeatau:
Nac ydy: 4
Ddim yn gwybod/ddim yn berthnasol/dim sylw: 6

**Sylwadau:**

- Awgrymodd un ymateb y dylai Biomecaneg gael ei symud i grŵp cost uwch o grŵp cost 4, oherwydd lefel o gynnwys Peirianneg sy'n debyg i'r codau eraill a oedd mewn grŵp cost uwch yn y broses fapio.
- Awgrymodd un ymateb y dylai'r holl bynciau yn CAH10_01_06 gael eu codio i grŵp cost 3, tra bo ymateb arall wedi awgrymu bod grŵp cost 2 yn fwy priodol.
- Nid oedd gan y mwyafrif o'r sefydliadau yn y categori 'dim sylw' unrhyw ddarpariaeth berthnasol.
- Awgrymodd un ymateb y dylai'r holl bynciau fod mewn un grŵp cost ond nid pe bai hynny ar draul dyraniad cyllid sefydliad.

**Cwestiwn 6b: Peirianneg a thechnoleg CAH lefel 1 (CAH10): mae'r codau HECoS peirianneg a thechnoleg yn grwpiau cost 2 a 3 yn bennaf. Ydych chi 'n meddwl bod y codau peirianneg a thechnoleg HECoS wedi'u mapio i'r grwpiau cost cywir? A oes enghreifftiau neilltuol o fapio codau HECoS mewn peirianneg a thechnoleg o bryder ichi, a pham?**

Ydym: 3
Ydym, gyda chafeatau:
Nac ydym: 5
Ddim yn gwybod/ddim yn berthnasol/dim sylw: 3

**Sylwadau:**

- Roedd y mwyafrif o'r ymatebion 'nac ydym' yn teimlo y dylid defnyddio'r un grŵp cost (grŵp cost 2) ar gyfer pob pwnc yn y grŵp. Roedd yr holl ymatebion eraill yn cefnogi'r broses fapio.

**Cwestiwn 6c: Peirianneg drydanol ac electronig CAH lefel 3 (CAH10_01_08): mae dau god HECoS yn y grŵp hwn wedi’u mapio i grŵp costau 2 tra bo'r codau sy’n weddill wedi'u mapio i grŵp costau 3. Ydych chi'n ystyried bod y ddau bwnc hyn yn costio mwy na gweddill y pynciau yn y grŵp CAH, neu a ddylid cynnwys y rhain yng ngrŵp costau 3 hefyd? Esboniwch pam.**

Ydym: 3
Ydym, gyda chafeatau:
Nac ydym: 4
Ddim yn gwybod/ddim yn berthnasol/dim sylw: 4

**Sylwadau:**

- Roedd ymatebwyr yn teimlo ar y cyfan y dylai’r holl godau peirianneg yn CAH10_01_08 fod yn yr un grŵp ac mai grŵp cost 2 ddylai hwn fod.
- Roedd ymatebion eraill yn teimlo bod y grwpiau HECoS wedi cael eu mapio’n gywir.
- Roedd un ymateb yn teimlo y dylai peirianneg drydanol a pheirianneg electronig gael eu cynnwys mewn grŵp cost uwch.

**Cwestiwn 6d: Gwyddorau daearyddol ffisegol CAH lefel 3 (CAH26_01_02): mae’r codau HECoS yn y CAH hwn wedi’u mapio i gymysgedd o grŵp costau 2 a grŵp costau 4. Mae codau HECoS mewn Daearyddiaeth Ddynol wedi'u mapio i grŵp costau 4. A oes gwahaniaethau gwirioneddol o ran cost rhwng y codau yn y CAH lefel 3 yma, neu a ddylai'r holl godau yn y CAH lefel 3 yma fod yn yr un grŵp costau? Os dylent fod yn yr un grŵp costau, pa grŵp costau ddylai hwnnw fod (esboniwch pam)?**

Oes: 5
Oes, gyda chafeatau:
Nac oes: 1
Ddim yn gwybod/ddim yn berthnasol/dim sylw: 5

**Sylwadau:**

- Roedd ymatebion i’r cwestiwn hwn wedi’u hollti.
- Awgrymodd un sefydliad nad oedd gwahaniaethau mawr mewn costau rhwng codau HECoS ar gyfer gwyddorau daearyddol ffisegol.
- Awgrymodd ymatebion eraill fod y mapio’n gywir a bod gwahanol lefelau o gostau rhwng pynciau.

**Cwestiwn 6e: Twristiaeth, teithio a thrafnidiaeth CAH lefel 3 (CAH17_01_06): mae'r codau HECoS yn y grŵp CAH lefel 3 hwn yn mapio i gymysgedd o grwpiau cost 3, 4 a 5. Mae gan rai o'r codau HECoS ddisgrifiadau tebyg felly gellid disgwyl iddynt gael eu mapio i grwpiau cost tebyg. A oes gwahaniaethau gwirioneddol o ran costau rhwng y codau o fewn y grŵp CAH lefel 3 hwn, neu a ddylid eu cynnwys yn yr un grŵp costau? Os oes gwahaniaethau, ydych chi o'r farn fod y codau HECoS wedi'u mapio i'r grwpiau cost cywir, neu a ddylid gwneud newidiadau, a pham? Os dylid eu cynnwys i gyd yn yr un grŵp costau, pa grŵp costau ddylai hwnnw fod a pham?**

Oes: 3
Oes, gyda chafeatau:
Nac oes: 4

Ddim yn gwybod/ddim yn berthnasol/dim sylw: 4

**Sylwadau:**

- Roedd ymatebion i’r cwestiwn hwn wedi’u hollti.
- Ni chynigiodd rhai sefydliadau unrhyw sylw, tra bo eraill wedi awgrymu grwpiau cost eraill ar gyfer y pynciau hyn.
- Awgrymodd dau ymateb fod grŵp cost 3 yn fwy priodol.
- Awgrymodd un ymateb y dylai pynciau a fapiwyd i grŵp cost 5 gael eu cynnwys yng ngrŵp cost 4.
- Awgrymodd un ymateb y dylid defnyddio un grŵp cost ar gyfer yr holl godau.

**Cwestiwn 6f: Nyrsio a bydwreigiaeth ac Iechyd Perthynol, CAH lefel 2 (CAH02_04 a CAH02_06): Mae’r ddau grŵp CAH lefel 2 hyn yng ngrŵp costau 4 yn bennaf. Yn flaenorol, roedd y rhan fwyaf o'r codau HECoS yn y grwpiau hyn yn ASC 2, a oedd yn cynnwys uned cyllid ar gyfer cyllid seiliedig ar gredyd israddedig rhan-amser, a oedd tua hanner ffordd, pe bai'r unedau cyllid yn cael eu trefnu o'r fwyaf i'r lleiaf. Dehongliad posibl o hyn yw bod y grŵp hwn o bynciau'n gymharol ratach nag o'r blaen. A yw'r mapio ar gyfer y ddau grŵp CAH lefel 2 hyn yn briodol. Os ddim, pam dim, ac a oes unrhyw godau HECoS neilltuol nad yw'n briodol ar eu cyfer?**

Ydy: 1
Ydy, gyda chafeatau:
Nac ydy: 6
Ddim yn gwybod/ddim yn berthnasol/dim sylw: 4

**Sylwadau:**

- Fe wnaeth ymatebion godi amheuon ynghylch y modd yr oedd y pynciau hyn wedi’u mapio.
- Erfyniodd un ymateb ar CCAUC i sicrhau nad oedd ei gyllid ar gyfer y pynciau hyn yn mynd yn groes i nodau strategol Addysg a Gwella Iechyd Cymru.
- Awgrymodd un ymateb fod y modd yr oedd perthynol i iechyd wedi’i fapio’n briodol ond y dylai bydwreigiaeth gael ei chynnwys mewn grŵp cost uwch.
- Awgrymodd ymatebion eraill y dylai’r pynciau hyn fod mewn grwpiau cost uwch.

**Cwestiwn 6g: Seicoleg CAH lefel 1 (CAH04): mae'r holl godau yn y grŵp CAH lefel 1 hwn wedi'u mapio i grŵp costau 5. Yn flaenorol, roedd y codau HECoS yn y grŵp CAH lefel 1 hwn wedi'u mapio i ASC 3, Gwyddoniaeth, a oedd yn gymharol ddrytach. A yw'r mapio i grŵp costau 5 yn briodol ar gyfer yr holl godau HECoS yn y grŵp CAH lefel 3 hwn? Ar gyfer unrhyw godau HECoS nad ydych chi'n meddwl bod y grŵp yn briodol ar eu cyfer, pa grŵp costau y dylid mapio'r codau iddynt a pham?**

Ydy:
Ydy, gyda chafeatau:
Nac ydy: 9
Ddim yn gwybod/ddim yn berthnasol/dim sylw: 2

**Sylwadau:**

- Awgrymodd y mwyafrif o’r ymatebion y dylai Seicoleg fod wedi’i fapio i grŵp cost uwch nag a gynigiwyd am ei fod yn bwnc drud i’w ddarparu, oherwydd costau staff, cymarebau staff/myfyrwyr a labordai/offer ymarferol.

**Cwestiwn 7: A yw'r ffioedd dysgu y bwriedir eu defnyddio yn y model yn briodol? Os ddim, pam ddim, a pha ddewisiadau arall sydd ar gael?**

Ydynt: 4
Ydynt, gyda chafeatau: 3
Nac ydynt: 3
Ddim yn gwybod/ddim yn berthnasol/dim sylw: 1

**Sylwadau**:
- Roedd ymatebion ar y cyfan yn cefnogi’r lefelau ffioedd a ddefnyddiwyd yn y model.
- Awgrymodd rhai ymatebion fod y ffi ran-amser a ddefnyddiwyd yn y model yn rhy isel.
- Awgrymodd un ymateb nad oedd y ffi o £9k ar gyfer darpariaeth israddedig yn adlewyrchu cost darparu mewn rhai meysydd, oherwydd chwyddiant.
- Trafododd rhai ymatebion lefelau ffioedd cyrsiau ôl-radd a addysgir, gydag un yn awgrymu y byddai’n anodd pennu cyfradd ffi ar gyfer darpariaeth ôl-radd a addysgir, pe bai hyn yn cael ei ddefnyddio yn y model yn y dyfodol.

**Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno y dylem gynnwys credydau recriwtio ar gyfer blwyddyn ryngosod a blynyddoedd iaith dramor ar ffurf cyfran o uchafswm y ffioedd dysgu israddedig amser llawn a godir yn unol â'r rheoliadau?**

Ydym: 9
Ydym, gyda chafeatau:
Nac ydym:
Ddim yn gwybod/ddim yn berthnasol/dim sylw: 2

**Sylwadau**:
- Roedd yr ymatebion yn cefnogi’r cynnig ar y cyfan.
- Awgrymodd un ymateb y dylai’r holl gredydau ar gyfer blwyddyn allan gael yr un lefel o gyllid ac y dylai hon adlewyrchu cost gwasanaethu’r flwyddyn allan (darparu cymorth staff a diwallu anghenion addysgol y myfyrwyr).

**Cwestiwn 9: Ydych chi'n cytuno â'r fethodoleg i gyfrifo uchafswm y credydau a gyllidir cyn twf? Os ddim, pam ddim, a beth arall ydych chi'n ei awgrymu yn lle hynny?**

Ydym: 6
Ydym, gyda chafeatau: 2
Nac ydym: 1
Ddim yn gwybod/ddim yn berthnasol/dim sylw: 2

**Sylwadau**:
- Roedd yr ymatebion yn cefnogi’r cynnig ar y cyfan, gyda rhai cafeatau.
- Roedd un sefydliad yn cefnogi’r cynnig ond awgrymodd fod angen diffiniad eglur, defnyddiadwy o ‘fodiwl a gwblheir’.

- Roedd ymateb arall yn cefnogi'r rhesymeg a oedd yn sail i'r cynnig ond yn teimlo y byddai angen hyblygrwydd i ystyried ffactorau y tu hwnt i reolaeth y sefydliad.
- Roedd un ymateb yn cefnogi'r cynnig ond yn annog CCAUC i sicrhau nad oedd yn gymhleth heb fod angen gan y byddai hyn yn groes i egwyddor tryloywder.

**Cwestiwn 10: A yw'r elfen adennill yn gweithio fel ffordd o ysgogi cynnydd mewn cyfraddau recriwtio drwy sicrhau na fydd gostyngiad mewn cyfraddau recriwtio yn ystod un flwyddyn yn effeithio ar y credydau a gyllidir am gyfnod hwy na blwyddyn? Os ddim, pam ddim, ac oes gennych chi unrhyw awgrymiadau eraill?**

Ydy: 6
Ydy, gyda chafeatau: 3
Nac ydy:
Ddim yn gwybod/ddim yn berthnasol/dim sylw: 2

**Sylwadau**:

- Roedd yr ymatebwyr yn cytuno ar y cyfan â'r cynnig i gynnwys elfen adennill yn y model cyllido.
- Awgrymodd un ymateb fod yr elfen adennill yn annhebygol o weithredu fel cymhelliant ynddi ei hun; fodd bynnag, byddai'n galluogi sefydliadau i ystyried hyn yn eu gwaith cynllunio strategol, gan wybod y gallai'r cyllid wedi blwyddyn o danrecriwtio gael ei adennill.
- Awgrymodd un ymateb nad oedd y cyfnod adennill o flwyddyn fel a awgrymwyd yn ddigon hir.

**Cwestiwn 11: Ydych chi'n cytuno y dylid cynnwys y gallu i ddarparu cyllid ar gyfer y ddau fath hyn o dwf yn y model? Os ddim, pam ddim, ac a fyddech yn awgrymu ffordd arall o gynnwys twf (manylwch), neu beidio â'i gynnwys o gwbl?**

Ydym: 8
Ydym, gyda chafeatau: 1
Nac ydym:
Ddim yn gwybod/ddim yn berthnasol/dim sylw: 2

**Sylwadau:**

- Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn cytuno â'r cynnig i gynnwys y gallu i ddarparu cyllid ar gyfer twf o fewn y model.
- Fe wnaeth ymatebion amlygu pwysigrwydd dyrannu cyllid ar gyfer twf yn unol â strategaethau sefydliadol a chydnabod darpariaeth bresennol.

**Cwestiwn 12: Ydych chi'n cytuno y dylai fod yn bosibl cynnwys cymhelliant yn y model? Os felly a yw'r dull a gynigir yn ffordd dda o wneud hyn? Os ddim, pam ddim, a pha ddull fyddech chi'n ei awgrymu yn lle hynny?**

Ydym: 5
Ydym, gyda chafeatau: 3
Nac ydym: 1
Ddim yn gwybod/ddim yn berthnasol/dim sylw: 2

**Sylwadau:**

- Roedd cefnogaeth i'r cynnig i gynnwys cymhelliant o fewn y model.
- Awgrymodd ymatebion y byddai angen i unrhyw gymhelliant fod yn hyblyg, yn strategol ac y byddai angen eglurder o ran pa feysydd y byddai'r cymhelliant yn gysylltiedig â hwy.
- Awgrymodd un ymateb y gallai sefydliadau wynebu heriau o ran fforddio a chynnal darpariaeth newydd ac y byddai angen i elfen cymhelliant, pe câi ei rhoi ar waith, gael ei hadolygu'n gyson i osgoi unrhyw ganlyniadau anfwriadol neu ddadsefydlogi posibl o fewn y sector.
- Awgrymodd ymateb arall mai cymhelliant gwell i gynyddu twf fyddai dyrannu credydau a gyllidir ychwanegol.

**Cwestiwn 13: A oes unrhyw ystyriaeth arall yr hoffech ei chynnwys yn y model? Os felly, beth ydych chi'n meddwl y dylid ei gynnwys? A oes unrhyw beth yn y model na ddylid ei gynnwys yn eich barn chi? Os felly, beth a pham?**

Oes: 3
Oes, gyda chafeatau:
Nac oes: 4
Ddim yn gwybod/ddim yn berthnasol/dim sylw: 4

**Sylwadau:**

- Ni wnaeth y mwyafrif o'r ymatebion awgrymu unrhyw beth arall i'w gynnwys yn y model.
- Fe wnaeth un ymateb nodi'r adolygiad o gostau darparu trwy gyfrwng y Gymraeg a oedd yn mynd rhagddo a dweud y byddai'n croesawu lefel uwch o bremiwm ar gyfer y ddarpariaeth hon.
- Awgrymodd un ymateb y dylai'r fethodoleg gyllido ystyried sut y gallai deilliannau llwyddiannus gael eu cydnabod a sut y gellid rhoi cymhelliant ar eu cyfer.
- Awgrymodd un ymateb y byddai cyllid ar gyfer mentrau penodol, megis costau dechrau darpariaeth newydd, yn cael ei groesawu.

**Cwestiwn 14: Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ynghylch y mewnbynnau y dylid eu defnyddio yn y model, neu'r allbynnau a restrir isod? Rhowch fanylion.**

Oes: 1
Oes, gyda chafeatau:
Nac oes: 10
Ddim yn gwybod/ddim yn berthnasol/dim sylw:

**Sylwadau:**

- Fe wnaeth un ymateb annog CCAUC i ymgynghori â'r sector ynghylch meysydd cymhelliant yn y model i sicrhau bod sefydliadau'n gallu ategu blaenoriaethau'r Llywodraeth yn effeithiol. Ni chynigiodd unrhyw un o'r ymatebion eraill sylwadau ychwanegol.

**Cwestiwn 15: Gan bwyso a mesur manteision ac anfanteision HESES a Monitro Diwedd Blwyddyn, pa un fyddech chi'n ei ffafrio i'w ddefnyddio yn y model ar gyfer**

**credydau recriwtio? (Gan gofio y byddai defnyddio HESES yn golygu casglu data HESES ar gyfer darpariaeth israddedig amser llawn a rhyngosod, yn ogystal â darpariaeth israddedig ran-amser, ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23; a byddai data a echdynnir o gofnod myfyrwyr HESA ar gyfer EYM yn berthnasol i flwyddyn academaidd 2021/22.) Esboniwch eich rhesymau.**

HESES: 4
EYM: 5
Y ddau: 1
Ddim yn gwybod/ddim yn berthnasol/dim sylw: 1

**Sylwadau:**

- Roedd mwyafrif bach iawn yn ffafrio defnyddio data EYM yn hytrach na data HESES yn y model cyllido newydd.
- Fe awgrymodd ymatebion o blaid EYM y byddai defnyddio EYM yn helpu i leihau'r baich a'r llwyth gwaith a oedd yn gysylltiedig â chynhyrchu data HESES, a bod hynny'n fwy cyson â chyflwyno Data Futures.
- Roedd ymatebion hefyd yn ffafrio defnyddio data EYM a oedd yn cynnwys data gwirioneddol yn hytrach na data HESES a oedd yn seiliedig ar werthoedd amcangyfrifedig.
- Fe wnaeth ymatebion o blaid HESES nodi'r arafwch wrth ddefnyddio data EYM mewn prosesau dyrannu cyllid.
- Awgrymodd un ymateb y byddai dull cyfunol a oedd yn cynnwys EYM a HESES yn rhoi mwy o hyblygrwydd ar gyfer twf.

**Cwestiwn 16: Gan dybio bod data yn ystod y flwyddyn ar gael, a fyddech yn fodlon â model a fyddai'n defnyddio 12 mis o ddata recriwtio yn hytrach na blwyddyn academaidd? Os ddim, pam ddim? Beth fyddech chi'n ei awgrymu yn lle hynny, a beth fyddai'r manteision cysylltiedig?**

Byddem: 5
Byddem, gyda chafeatau: 2
Y naill neu'r llall: 1
Na fyddem: 2
Ddim yn gwybod/ddim yn berthnasol/dim sylw: 1

**Sylwadau:**

- Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno, er gyda rhai cafeatau, y byddai 12 mis o ddata recriwtio'n well na data dros flwyddyn academaidd.
- Fe wnaeth ymatebion o blaid 12 mis o ddata recriwtio nodi y byddai hynny'n rhoi ystyriaeth yn fwy cywir i ddarpariaeth a oedd yn rhychwantu blynyddoedd academaidd traddodiadol. Byddai hefyd yn gyson â chyflwyno Data Futures.
- Fe wnaeth ymatebion o blaid defnyddio data dros flwyddyn academaidd nodi bod hynny'n cyd-fynd â phrosesau gweinyddol prifysgolion a adegau adrodd eraill.
- Fe wnaeth ymatebion eraill awgrymu y byddai angen cymryd gofal o ran yr union adeg y caiff data ei gasglu o fewn y cyfnod ac y byddent yn croesawu eglurder o ran sut y byddai'r broses yn gweithredu.

**Cwestiwn 17: Ydych chi'n cytuno â'r dull a gynigir ar gyfer cyfrifo unrhyw addasiad i'r cyllid, fel y nodir ym mharagraffau 64 a 69? Os ddim, pam ddim, a beth arall ydych chi'n ei awgrymu yn lle hynny?**

Ydym: 8
Ydym, gyda chafeatau: 2
Nac ydym:
Ddim yn gwybod/ddim yn berthnasol/dim sylw: 1

**Sylwadau:**

- Roedd cytundeb gyffredinol â'r dull arfaethedig o gyfrifo addasiadau i'r cyllid.
- Awgrymodd un ymateb na ddylai'r lefel astudio gael ei thrin ar wahân yn y dull.
- Fe wnaeth ymateb arall bwysleisio'r angen i'r model gydnabod twf.

**Cwestiwn 18: Oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau eraill ynghylch data recriwtio i'w defnyddio yn y model?**

Oes: 2
Oes, gyda chafeatau:
Nac oes: 9
Ddim yn gwybod/ddim yn berthnasol/dim sylw:

**Sylwadau:**

- Ni wnaeth y mwyafrif o'r sefydliadau ddarparu sylwadau pellach nac awgrymiadau ynglŷn â data recriwtio i'w ddefnyddio yn y model.
- Awgrymodd un ymateb y gallai defnyddio data gan HESA yn unig leihau'r baich sy'n gysylltiedig â chasglu data HESES.
- Fe wnaeth ymateb arall amlygu baich gweithredu'r model newydd fel pryder posibl, cyn cyflwyno Data Futures.

**Cwestiwn 19: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddarparu cyllid atodol ar gyfer pynciau drud drwy'r dull newydd seiliedig ar gredydau? Esboniwch eich ateb.**

Ydym: 7
Ydym, gyda chafeatau: 3
Nac ydym:
Ddim yn gwybod/ddim yn berthnasol/dim sylw: 1

**Sylwadau:**

- Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i ddarparu cyllid atodol ar gyfer pynciau drud trwy'r dull newydd seiliedig-ar-gredydau.
- Fe geisiodd rhai ymatebion sicrwydd y byddai lefelau cyllid presennol ar gyfer pynciau drud yn cael eu hystyried wrth roi'r dull newydd ar waith.

**Cwestiwn 20: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddarparu cyllid atodol ar gyfer pynciau cost uwch drwy'r dull newydd seiliedig ar gredydau? Esboniwch eich ateb.**

Ydym: 9

Ydym, gyda chafeatau: 1
Nac ydym:
Ddim yn gwybod/ddim yn berthnasol/dim sylw: 1

**Sylwadau:**

- Roedd yr holl ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cefnogi'r cynnig i ddarparu cyllid atodol ar gyfer pynciau cost uwch trwy'r dull newydd seiliedig-ar-gredydau.
- Awgrymodd un sefydliad, yn eu hymateb, na fyddent yn cefnogi'r cynnig yn llawn heb weld effaith y modd y byddai'r cyllid yn cael ei ddosbarthu.

**Cwestiwn 21: Ydych chi'n cytuno y dylem barhau i ddarparu cyllid premiwm *(anabledd)* ar y sail hon?**

Ydym: 7
Ydym, gyda chafeatau: 2
Nac ydym: 1
Ddim yn gwybod/ddim yn berthnasol/dim sylw: 1

**Sylwadau:**

- Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn gefnogol i barhau â chyllid premiwm anabledd, fel a nodwyd yn yr ymgynghoriad.
- Awgrymodd un ymateb y gallai'r fethodoleg gyllido gael ei symleiddio ac y gallai cyllid i gefnogi myfyrwyr ag anableddau gael ei ddyrannu trwy fuddsoddiad mewn cynlluniau ffioedd a mynediad yn lle hynny.

**Cwestiwn 22: £300 yw lefel y cyllid sy'n gysylltiedig â phob myfyriwr ar hyn o bryd. Ydych chi'n cytuno bod y swm hwn yn briodol wrth gyfrifo cyllid premiwm? Os nad ydych chi, pam ddim?**

Ydym: 5
Ydym, gyda chafeatau:
Nac ydym: 5
Ddim yn gwybod/ddim yn berthnasol/dim sylw: 1

**Sylwadau:**

- Roedd y mwyafrif o'r ymatebion wedi'u hollti rhwng cytuno bod y swm yn briodol ac awgrymu y dylai fod yn uwch.
- Awgrymodd un ymateb y dylai'r cyllid hwn gael ei gyfuno â buddsoddiad mewn cynlluniau ffioedd a mynediad.
- Fe wnaeth ymatebion a oedd yn cefnogi cyfradd cyllid uwch enwi costau byw, costau asesu a chwyddiant.

**Cwestiwn 23: Beth yw eich barn am y posibilrwydd o ddiwygio'r premiwm mynediad a chadw i gynnwys darpariaeth israddedig amser llawn yn ogystal â darpariaeth israddedig ran-amser? Esboniwch eich ateb.**

Ie: 3
Ie, gyda chafeatau: 2

Nage: 3
Ddim yn gwybod/ddim yn berthnasol/dim sylw: 3

**Sylwadau:**

- Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn wedi'u hollti.
- Awgrymodd ymatebion o blaid y cynnig y byddai'n cynyddu tegwch rhwng dulliau astudio amser llawn a rhan-amser ac y byddai'n cydnabod y cymorth ychwanegol yr oedd ar fyfyrwyr amser llawn ei angen.
- Roedd ymatebion eraill yn croesawu'r cynnig, ond dim ond ar y sail bod cyllid ychwanegol ar gael i gefnogi'r ehangiad.
- Awgrymodd un ymateb a oedd yn anghytuno â'r cynnig y dylai'r newidiadau yng ngham un i'r premiwm mynediad a chadw gael eu rhoi ar waith yn gyntaf cyn bod newidiadau pellach yn cael eu gwneud.

**Cwestiwn 24: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i barhau i ddefnyddio'r mapiau daearyddol a ddefnyddiwyd ynn nyraniadau cyllid 2022/23 i rannu myfyrwyr wedi'u cynnwys yn y dyraniad i gategorïau ardaloedd o amddifadedd a chyfranogiad isel? Esboniwch eich ateb.**

Ydym: 8
Ydym, gyda chafeatau: 2
Nac ydym:
Ddim yn gwybod/ddim yn berthnasol/dim sylw: 1

**Sylwadau:**

- Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig.
- Awgrymodd un ymateb o blaid y cynnig y byddai hyn yn cydnabod bod myfyrwyr nad ydynt yn byw mewn ardaloedd MALIC40 a fyddai'n cael budd o'r adnodd ychwanegol.
- Cododd ymateb arall fater natur wledig a dwyseddau poblogaeth isel wrth ystyried methodolegau cyllido sy'n seiliedig ar ddaearyddiaeth.
- Awgrymodd un ymateb y dylai'r dull o ehangu mynediad sy'n seiliedig ar godau post gael ei adolygu ac y dylid ystyried diffiniad ehangach o ehangu mynediad, i ystyried data a gesglir trwy HESA.

**Cwestiwn 25: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiweddaru data'r cyfrifiad a ddefnyddiwyd i fapio codau post ag ardaloedd cyfranogiad isel o 2011 i 2021, pan fydd data priodol ar gael? Esboniwch eich ateb.**

Ydym: 11
Ydym, gyda chafeatau:
Nac ydym:
Ddim yn gwybod/ddim yn berthnasol/dim sylw:

**Sylwadau:**

- Roedd yr holl ymatebion yn cytuno

**Cwestiwn 26: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i barhau i ddefnyddio cyfran y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n dod o gwintelau 1 a 2 ym MALIC19, ar drothwy o 35%, i gynnwys darparwyr yn y categori ehangu mynediad. Esboniwch eich ateb.**

Ydym: 7
Ydym, gyda chafeatau:
Nac ydym: 4
Ddim yn gwybod/ddim yn berthnasol/dim sylw:

**Sylwadau**

- Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn cefnogi'r cynnig i barhau i ddefnyddio cyfran y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n dod o gwintelau 1 a 2 ym MALIC19, ar drothwy o 35%, i gynnwys darparwyr yn y categori ehangu mynediad.
- Nid oedd gweddill yr ymatebion yn cefnogi'r cynnig, sy'n awgrymu bod lleoliad y sefydliad a maint y sefydliad yn ffactorau sy'n effeithio ar lwyddiant sefydliadau i allu recriwtio myfyrwyr ehangu mynediad.
- Awgrymodd un ymateb fod cyfartaledd y sector yng Nghymru'n cael ei ddefnyddio fel y trothwy, yn lle'r lefel arfaethedig o 35%

**Cwestiwn 27: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i barhau i ddefnyddio'r categorïau cadw a geir ym model 2022/23? Esboniwch eich ateb.**

Ydym: 9
Ydym, gyda chafeatau: 1
Nac ydym: 1
Ddim yn gwybod/ddim yn berthnasol/dim sylw:

**Sylwadau:**

- Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn cytuno â'r cynnig.
- Awgrymodd un ymateb fod y cyllid mynediad a chadw'n cael ei waredu, gydag adnodd yn cael ei ddarparu trwy fuddsoddiad mewn cynlluniau ffioedd a mynediad yn lle hynny.
- Roedd un ymateb yn cefnogi'r cynnig ond awgrymodd y gallai'r trothwy o 35%, fel a nodwyd yng nghwestiwn 26, gael ei waredu.

**Cwestiwn 28: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gynyddu'r gwahaniaeth cymharol mewn cyfraddau cyllid rhwng y ddau gategori cadw? Os felly, beth fyddech chi'n ei awgrymu fel gwahaniaeth a pham, ac a ddylai fod yr un peth ar gyfer pob categori daearyddol, neu os ddim, esboniwch eich ateb.**

Ydym: 6
Ydym, gyda chafeatau: 2
Nac ydym: 1
Ddim yn gwybod/ddim yn berthnasol/dim sylw: 2

**Sylwadau:**

- Roedd cefnogaeth gan ymatebwyr i'r cynnig i gynyddu'r gwahaniaeth cymharol mewn cyfraddau cyllid rhwng y ddau gategori cadw.

- Roedd un ymateb yn cefnogi’r cynnig mewn egwyddor, gan amlygu pwysigrwydd sicrhau pwyslais priodol ar gadw a llwyddiant myfyrwyr.
- Awgrymodd ymateb arall a oedd yn cytuno fod y cynnig yn briodol, o ystyried y gwahaniaethau rhwng y ddau gategori a chymhlethdod MALIC yn arbennig.
- Dynododd ymatebion eraill y byddent yn croesawu mwy o wybodaeth am y rhesymeg a oedd yn sail i’r cynnig.

**Cwestiwn 29: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gadw'r gwahaniaethau cymharol rhwng y tair cyfradd gyllido ar gyfer y grwpiau daearyddol (MALIC19 a darparydd ehangu mynediad, MALIC19 a heb fod yn ddarparydd ehangu mynediad ac ardaloedd cyfranogiad isel)? Esboniwch eich ateb.**

Ydym: 6
Ydym, gyda chafeatau:
Nac ydym: 2
Ddim yn gwybod/ddim yn berthnasol/dim sylw: 3

**Sylwadau:**

- Dynododd ymatebion gefnogaeth i’r cynnig, gyda’r rhai a oedd o blaid yn awgrymu bod sefydliadau’n aml yn wynebu heriau penodol a goblygiadau penodol o ran adnoddau i gefnogi myfyrwyr o gefndiroedd ehangu mynediad.
- Fe wnaeth un ymateb ailadrodd ei farn gynharach o blaid symleiddio cyllid.
- Awgrymodd un ymateb a oedd yn anghytuno nad oedd hi’n glir pam fod tair cyfradd cyllid ar gyfer y grwpiau daearyddol.
- Awgrymodd un ymateb y dylai lefel y cyllid ddibynnu pa un a oedd y myfyriwr yn dod o ardal amddifadus fel a gydnabyddir yng nghwintelau isaf MALIC ai peidio.

**Cwestiwn 30: Ydych chi'n cytuno y dylem barhau i gynnig cyllid fesul pen? Esboniwch eich ateb.**

Ydym: 7
Ydym, gyda chafeatau: 1
Nac ydym: 1
Ddim yn gwybod/ddim yn berthnasol/dim sylw: 2

**Sylwadau:**

- Roedd y mwyafrif o’r ymatebion yn cefnogi parhad cyllid y pen.
- Awgrymodd ymatebion eraill fod lefel y cyllid ar hyn o bryd yn rhy isel i fod yn effeithiol.
- Awgrymodd un ymateb fod y cyllid yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd fwy strategol, er enghraifft i gefnogi mentrau sydd wedi’u bwriadu ar gyfer menywod mewn STEM, neu i gefnogi darpariaeth newydd.

**Cwestiwn 31: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddarparu cyllid fesul pen ar sail cyfradd sy'n amrywio rhwng gwahanol foddau a lefelau? Esboniwch eich ateb.**

Ydym: 6
Ydym, gyda chafeatau:
Nac ydym: 4

Ddim yn gwybod/ddim yn berthnasol/dim sylw: 1

**Sylwadau:**

- Roedd y mwyafrif o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cytuno â'r cynnig i ddarparu cyllid y pen ar sail cyfradd amrywiadwy rhwng dulliau a lefelau.
- Roedd rhai ymatebion yn anghytuno â'r cynnig, neu fe awgrymon nhw y dylai cyllid y pen gael ei waredu'n gyfan gwbl, gan nad oedd ei effeithiolrwydd yn hysbys.
- Fe wnaeth ymatebion eraill groesawu'r awgrym ynghylch cyfradd amrywiadwy ar gyfer cyllid y pen a oedd yn blaenoriaethu myfyrwyr rhan-amser.

**Cwestiwn 32: Ydych chi'n cytuno y dylem ddarparu lefel uwch o gyllid fesul pen ar gyfer darpariaeth israddedig ran-amser, a chadw'r cyfraddau ar gyfer darpariaeth israddedig amser llawn, ôl-radd amser llawn ac ôl-radd rhan-amser yr un peth? Esboniwch eich ateb.**

Ydym: 7
Ydym, gyda chafeatau:
Nac ydym: 4
Ddim yn gwybod/ddim yn berthnasol/dim sylw:

**Sylwadau:**

- Roedd y mwyafrif o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cytuno â'r cynnig i ddarparu lefel uwch o gyllid y pen ar gyfer darpariaeth israddedig ran-amser.
- Fe wnaeth un ymateb groesawu'r bwriad i amcanu at fwy o gyfartalwch cyllid ar gyfer darpariaeth ran-amser ac amser llawn.
- Awgrymodd ymatebion eraill y dylai lefel gyfredol cyllid y pen ar gyfer darpariaeth israddedig ran-amser gael ei chynyddu er mwyn mynd i'r afael â chostau uwch sy'n gysylltiedig â darparu cyrsiau rhan-amser.

**Ymatebwyr**

Prifysgol Aberystwyth

Prifysgol Bangor

Prifysgol Caerdydd

Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Grŵp Llandrillo Menai

Grŵp NPTC

Y Brifysgol Agored

Prifysgol Abertawe

Prifysgol De Cymru

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Prifysgol Glyndŵr Wrecsam